# Arolwg Myfyrwyr *Mae’ch Arian o Bwys* – Cymru




Croeso i’r gwerthusiad o ***Mae’ch Arian o Bwys*** - a gynhelir gan Ysgol Fusnes Prifysgol Caeredin ochr yn ochr â Young Money a’r Gwasanaeth Arian a Phensiynau.

Gwerslyfr addysg ariannol yw ***Mae’ch Arian o Bwys*** a gynhyrchwyd gan Young Money, sy’n rhan o Young Enterprise. Gyda chyllid gan Martin Lewis OBE a’r Gwasanaeth Arian a Phensiynau, cynhyrchwyd argraffiad newydd o ***Mae’ch Arian o Bwys*** ar gyfer Cymru (yn Gymraeg ac yn Saesneg) ac fe’i hanfonwyd at bob ysgol ganol ac uwchradd yng Nghymru a ariennir gan y wladwriaeth yn yr hydref 2021.

Rydym yn awyddus i ddeall effaith y gwerslyfr ***Mae’ch Arian o Bwys*** newydd yng Nghymru, ac yn gofyn i fyfyrwyr o ysgolion yng Nghymru sydd wedi defnyddio’r gwerslyfr gymryd rhan mewn arolwg. Mae’r arolwg yn gwbl wirfoddol, ond gobeithiwn y byddwch yn cymryd rhan ac yn ein helpu i ddeall beth yw barn myfyrwyr am ***Mae’ch Arian o Bwys***, a pha wahaniaeth y mae’n ei wneud i ddysgu am arian yn yr ysgol. Bydd eich atebion yn cael eu trin yn gyfrinachol ac yn ddienw ac fe’u defnyddir at ddiben y gwerthusiad hwn a gwaith ymchwil cysylltiedig yn unig. Ni fyddwn yn enwi unrhyw fyfyrwyr nac ysgolion.

Dylai’r arolwg hwn gymryd tua 10-15 munud i’w lenwi. Ar y dudalen nesaf, gofynnir i chi gofnodi’ch cytundeb i gymryd rhan ac i’r ymatebion gael eu defnyddio yn y gwerthusiad.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr arolwg, gallwch ofyn i’ch athro/athrawes yn y lle cyntaf. Gallwch hefyd ddarllen mwy am y gwerthusiad ar dudalen we Gwerthuso Effaith Mae’ch Arian o Bwys.

Diolch yn fawr am gymryd rhan
Tîm Gwerthuso ***Mae’ch Arian o Bwys***

**Ticiwch i ddweud p'un a ydych chi'n cytuno i gymryd rhan yn yr arolwg**

*(Er efallai bod eich rhieni wedi rhoi eu caniatâd i chi gymryd rhan yn yr arolwg hwn, gallwch benderfynu drosoch eich hun p'un a ydych chi eisiau gwneud hynny. Cofiwch, os byddwch yn dewis 'Nac ydw', ni fyddwch yn gallu llenwi'r arolwg).*

| | Ydw | Nac ydw |
|---|---|---|
| Rwy'n cytuno i gymryd rhan yn yr arolwg | ○ | ○ [Ewch i ddiwedd yr arolwg] |

C1 **Beth yw enw eich ysgol?**

________________________________________

C2 **Ym mha flwyddyn ysgol ydych chi ar hyn o bryd?**

- ○ Blwyddyn 7
- ○ Blwyddyn 8
- ○ Blwyddyn 9
- ○ Blwyddyn 10
- ○ Blwyddyn 11
- ○ Blwyddyn 12
- ○ Blwyddyn 13
- ○ Arall (dywedwch ba Flwyddyn)______________________________

C3 **Ydych chi'n:**

- ○ Wrywaidd
- ○ Benywaidd
- ○ Gwell gennyf ddisgrifio fy hun
- ○ Gwell gennyf beidio â dweud

C4 **Oes gennych chi eich arian eich hun? (e.e. arian poced neu arian rydych chi'n ei ennill)**

- ◯ Oes
- ◯ Nac oes
- ◯ Ddim yn gwybod

C5 **Yn ystod y 12 mis diwethaf, ydych chi'n cofio cael unrhyw wersi yn yr ysgol ar reoli arian neu gyllid personol (h.y. addysg ariannol) <u>gan ddefnyddio'r gwerslyfr *Mae'ch Arian o Bwys*</u>?**

- ◯ Ydw
- ◯ Nac ydw [Ewch i ddiwedd yr arolwg]
- ◯ Ddim yn gwybod [Ewch i ddiwedd yr arolwg]

C6 **Pa rai o'r pynciau canlynol (y mae pob un ohonynt yn cael sylw mewn Pennod) y dysgoch chi amdanynt <u>o'r gwerslyfr *Mae'ch Arian o Bwys*</u>?**
*(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)*

- ☐ **Cynilo** (e.e. pam cynilo, sut i gynilo, cyfrifon a chynhyrchion cynilo, llog) (Pennod 1)
- ☐ **Gwneud y mwyaf o'ch arian** (e.e. penderfyniadau gwario, ffyrdd o dalu, cyllidebu, gwerth am arian) (Pennod 2)
- ☐ **Benthyca** (e.e. dyled, ad-dalu, llog, APR, dewisiadau a chynhyrchion benthyca) (Pennod 3)
- ☐ **Symud ymlaen o'r ysgol – byd gwaith** (e.e. prentisiaethau, cyflogaeth, astudio, cyllid myfyrwyr, enillion, slipiau cyflog, treth, yswiriant gwladol, pensiynau) (Pennod 4)
- ☐ **Risg a gwobr** (e.e. mathau o risg, asesu risg, diogelu rhag risg, yswiriant, buddsoddiadau, gamblo) (Pennod 5)
- ☐ **Diogelwch a thwyll** (e.e. dwyn hunaniaeth, seiberdroseddu, diogelu rhag twyll, diogelwch ar-lein, mulod arian) (Pennod 6)
- ☐ Dim un ohonynt
- ☐ Ddim yn gwybod

C7 **I ba raddau yr oeddech chi'n credu bod y <u>gwerslyfr *Mae'ch Arian o Bwys*</u> yn ddiddorol, yn berthnasol ac yn ddifyr i'w ddefnyddio?**

| | Ddim o gwbl | Ychydig | Gweddol | Yn sicr | Yn arbennig |
|---|---|---|---|---|---|
| Diddorol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Perthnasol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Difyr | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

C8 **I ba raddau, os o gwbl, ydych chi'n teimlo bod eich dealltwriaeth o faterion ariannol wedi gwella yn dilyn y gwersi <u>a oedd yn defnyddio'r gwerslyfr *Mae'ch Arian o Bwys*</u>?**

*(Dewiswch rif ar y raddfa ganlynol, lle mae 0 yn cynrychioli 'heb wella o gwbl' ac mae 10 yn cynrychioli 'wedi gwella llawer')*

**Heb wella o gwbl** — **Wedi gwella llawer**

0 1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

C9 **Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo wrth reoli'ch arian?**

*(Dewiswch rif ar y raddfa ganlynol, lle mae 0 yn cynrychioli 'ddim yn hyderus o gwbl' ac mae 10 yn cynrychioli 'yn gwbl hyderus')*

**Ddim yn hyderus o gwbl** — **Yn gwbl hyderus**

0 1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

C10 **Ers i chi ddysgu am arian yn yr ysgol <u>gan ddefnyddio'r gwerslyfr *Mae'ch Arian o Bwys*</u>, i ba raddau mae eich gwybodaeth am y canlynol wedi newid?**
*(Atebwch mor onest â phosibl)*

| | **Dim newid** Rwy'n gwybod yr un faint ag o'r blaen | Rwy'n gwybod **ychydig bach yn fwy** nag o'r blaen | Rwy'n gwybod **eithaf tipyn yn fwy** nag o'r blaen | Rwy'n gwybod **llawer mwy** nag o'r blaen | Rwy'n gwybod **cryn dipyn** yn fwy nag o'r blaen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rwy'n gwybod y gwahanol opsiynau sydd ar gael i gynilo arian** (h.y. gwahanol fathau o gyfrifon cynilo) a sut maen nhw'n gweithio | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Rwy'n gwybod y gwahanol ffyrdd o dalu am bethau** (e.e. arian parod, cerdyn debyd, cerdyn credyd, taliadau symudol) a'u manteision a'u hanfanteision | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Rwy'n gwybod y gwahanol ffyrdd o fenthyca arian** (e.e. cerdyn credyd, benthyciad, benthyciad diwrnod cyflog) a'u manteision a'u hanfanteision | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Rwy'n gwybod sut i ddarllen slip cyflog** (gan gynnwys y gwahaniaeth rhwng cyflog gros a chyflog net a beth yw'r gwahanol ddidyniadau) | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Rwy'n gwybod bod cymryd risgiau'n gallu arwain at ganlyniadau cadarnhaol a negyddol** | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Rwy'n gwybod am wahanol ffyrdd o gadw fy nhrafodion ariannol yn ddiogel** a ble i gael cymorth os bydd rhywbeth yn mynd o'i le. | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

C11 **Ers i chi ddysgu am arian yn yr ysgol <u>gan ddefnyddio'r gwerslyfr *Mae'ch Arian o Bwys*</u>, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?**

*(Atebwch mor onest â phosibl. Os nad ydych yn gallu gwneud rhywbeth, does dim ots)*

| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno ychydig | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno ychydig | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Rwy'n gallu cymharu nodweddion gwahanol gyfrifon cynilo yn well i ddewis opsiwn sy'n briodol i fy anghenion | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Rwy'n gallu defnyddio cyllideb yn well i gynllunio fy ngwario a chadw golwg ar fy arian | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Rwy'n gallu cymharu'r gwahanol fathau o fenthyca yn well ac adnabod pa rai sy'n ddrutach | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Rwy'n gallu darllen slip cyflog yn well ac yn gallu deall beth mae'n ei ddweud wrthyf | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Rwy'n gallu adnabod y gwahanol fathau o yswiriant y mae'n rhaid i mi eu cael yn well, a'r rhai sy'n ddewisol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Rwy'n gallu adnabod cyfathrebu twyllodrus a sgamiau yn well (e.e. negeseuon e-bost, galwadau ffôn, negeseuon testun ac ati) | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

C12 **Ers i chi ddysgu am arian yn yr ysgol <u>gan ddefnyddio'r gwerslyfr *Mae'ch Arian o Bwys*,</u> pa mor hyderus ydych chi'n teimlo i wneud y canlynol:**

*(Atebwch mor onest â phosibl)*

| | Rwy'n teimlo'n **llai hyderus** nag o'r blaen | **Dim newid** Rwy'n teimlo yr un mor hyderus ag o'r blaen | Rwy'n teimlo **ychydig yn fwy hyderus** nag o'r blaen | Rwy'n teimlo **eithaf tipyn yn fwy hyderus** nag o'r blaen | Rwy'n teimlo **llawer yn fwy hyderus** nag o'r blaen |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwneud dewisiadau ynglŷn â sut a ble i gynilo arian | | | | | |
| Gosod cyllideb a chadw ati | | | | | |
| Cyfrifo faint fyddai'r gost i fenthyca arian gan ddefnyddio gwahanol opsiynau (gyda gwahanol gyfraddau llog) | | | | | |
| Darllen slip cyflog a gwirio bod y didyniadau'n gywir | | | | | |
| Asesu gwahanol fathau o risg a gwobr ariannol | | | | | |
| Diogelu'ch hun rhag twyll a dwyn hunaniaeth | | | | | |

C13 **Pa mor dda y mae pob un o’r canlynol yn eich disgrifio chi?**
*(Atebwch mor onest â phosibl)*

| | Ddim yn debyg i fi o gwbl | Ychydig bach yn debyg i fi | Yn eithaf tebyg i fi | Yn debyg i fi gan mwyaf | Yn debyg iawn i fi |
|---|---|---|---|---|---|
| Pan fyddaf yn cael arian, rwy’n cynilo rhywfaint ohono bob amser | | | | | |
| Rwy’n cadw golwg ar faint o arian rwy’n ei wario fel arfer | | | | | |
| Rwy’n tueddu i siopa o gwmpas a chymharu prisiau i gael y fargen orau cyn gwario fy arian | | | | | |
| Rwy’n aml yn benthyca arian gan fy rhieni (neu bobl eraill) a’u had-dalu, yn hytrach na chynilo | | | | | |
| Rwy’n gwneud pob ymdrech i gadw fy nhrafodion ariannol yn ddiogel (gan gynnwys taliadau ar-lein) | | | | | |

C14 **Ers i chi ddysgu am arian gan ddefnyddio’r gwerslyfr *Mae’ch Arian o Bwys*, i ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â phob un o’r datganiadau canlynol?**
*(Atebwch mor onest â phosibl)*

| | Anghytuno’n gryf | Anghytuno ychydig | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno ychydig | Cytuno’n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Rwy’n cymryd mwy o gyfrifoldeb am fy arian fy hun nag o’r blaen | | | | | |
| Rwy’n gallu rheoli fy arian fy hun yn well nag o’r blaen | | | | | |
| Rwy’n teimlo bod gennyf fwy o reolaeth dros fy sefyllfa ariannol fy hun nag o’r blaen | | | | | |
| Rwy’n mwynhau dysgu am arian nawr (a sut i ofalu amdano), yn fwy nag o’r blaen | | | | | |
| Rwy’n credu bod dysgu am reoli arian yn yr ysgol yn bwysicach nag o’r blaen | | | | | |
| Rwy’n credu bod mwy o gyfleoedd i ddysgu am reoli arian yn yr ysgol nag o’r blaen | | | | | |

C15 **A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am y gwerslyfr *Mae'ch Arian o Bwys* neu ddysgu am reoli arian yn yr ysgol?**

______________________________________________________________

**DIOLCH**

Bydd eich ymatebion yn cael eu prosesu gan Brifysgol Caeredin
ar ran Young Enterprise